

# CYNLLUN GWEITHREDU - ADRODDIAD YN ERBYN AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-2017

Bywyd ac lechyd						
Amcan Cydraddoldeb 1: Lleihau nifer y tanau mewn cartrefi ac anafiadau cysylltiedig drwy strategaeth atal gynhwysfawr sy'n targedu'n benodol y bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu amgylchiadau penodol.						
Amcan Cydraddoldeb 1	Camau Gweithredu	Rheolwr Arweiniol	Blwyddyn Cynnydd 2016-2017	Blwyddyn Cynnydd 2017-2018	Blwyddyn Cynnydd 2018-2019	Blwyddyn Cynnydd 2019-2020
<b>LH/ 02</b> <b>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</b>	Adolygu templed a chanllawiau yr EIA; pennu a fyddai templed diwygiedig yn cynorthwyo staff i gwblhau EIA. Manteisio ar y cyfle i integreiddio ffurflen EIA ddiwygiedig, codi ymwybyddiaeth a gwella ansawdd yr EIA mewn cydweithrediad ag adolygiad Safonau Gwasanaeth Proffesiynol (PSS) o strwythur polisi'r Gwasanaethau. Bydd EA yn asesu'r broses EIA bresennol ac yn gwneud cyflwyniad i broses ymgynghori'r PSS. Fel rhan o'r adolygiad hwn bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno panel sicrhau ansawdd i adolygu a chymeradwyo'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.	<b>Ymgynghorydd Cydraddoldeb</b>  <b>Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol</b>	Mae'r Grŵp Iechyd, Diogelwch a Lles wedi adolygu strwythur polisi'r Gwasanaethau, ac mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi asesu'r broses EIA gyfredol gan gynnwys y ffurflenni a'r canllawiau.			
<b>Adolygu'r broses o asesu effaith ar gydraddoldeb a sefydlu gweithdrefn ar gyfer sicrhau ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd. (EIA)</b>			Trafododd yr adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb y posibilrwydd o gynnal asesiad effaith integredig; byddai hyn yn cynnwys asesiadau gofynnol eraill a rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y grŵp yn gweithio i gynhyrchu templed asesu integredig, gyda chanllawiau. Bydd y canllawiau a'r templed hwn yn ymgorffori pob maes â gofyniad cyfreithiol. Fel rhan o'r broses hon, sefydlodd PSS broses i sicrhau ansawdd y polisiâu a'r asesiadau o effaith sy'n cael eu cyflwyno gan reolwyr cyn i'r polisi fynd i'r Grŵp Gweithredol i'w gymeradwyo.			
<b>LH/ 03</b>  Targedu'r rhai y gwyddom eisoes eu bod mewn mwy o berygl o dân, ar gyfer addysg ac ymyrraeth o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig, sef oedran ac anabledd.	Defnyddio atgyfeiriadau partner a dulliau eraill i dargedu'r rhai y gwyddom eu bod mewn mwy o berygl o dân, ar sail oedran neu anabledd.  Datblygu'r broses Asesu Risg o Gwmpadau ar gyfer ei chyflwyno ar draws Gogledd Cymru yn ehangach.  Datblygu gwasanaeth ymateb i gwmpadau mewn partneriaeth â Telecare a WAST	<b>Uwch Reolwr Diogelwch Tân</b>	Mae atgyfeiriadau partner yn parhau i fod yn ofyniad allweddol ar gyfer cyflawni ein strategaeth sy'n ymwneud â gwiriadau Diogel ac Iach.  Mae'r Offeryn Asesu Risg Cwmpadau (FRAT) bellach wedi'i ymgorffori yn y gwiriad Diogel a Da ac mae llwybrau atgyfeirio bellach ar waith mewn tair sir yng Ngogledd Cymru.  Cafodd cynllun peilot ymateb i gwmpadau ei ddatblygu a'i gyflwyno gyda llwyddiannau sylweddol. Yn aros am benderfyniadau ynghylch cyflwyno'n ehangach.			
<b>LH/ 01</b>  <b>Mapio proses Gwiriadau Diogelwch Cartref o geisiadau ac angen a nodwyd, hyd at eu cwblhau.</b>	Cwblhau ymarfer mapio prosesau cynhwysfawr gyda'r nod o wella effeithlonrwydd cynllunio a darparu Gwiriad Diogelwch Cartref gan alluogi'r Gwasanaeth i ganolbwyntio mwy ar bobl y mae eu nodweddion, eu hamgylchiadau a/neu eu hymddygiad yn eu rhoi mewn categorïau amlwg o fod yn fwy agored i niwed.	<b>Rheolwr Cynllunio Corfforaet hol</b>	Cynhaliwyd digwyddiad mapio prosesau a fynychwyd gan amrywiaeth o staff gwasanaeth ym mis Tachwedd 2016, ond bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth i lwyth gwaith ychwanegol nad oedd modd ei ragweld gan yr adran yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gwaith dilynol i lunio argymhellion ar gyfer gwella wedi arafu. Felly bydd y gwaith arfaethedig hwn yn cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 2017/18.			
<b>LH/ 02</b> <b>Datblygu dull cyson wedi'i dargedu o gasglu a dehongli data risg mewn cyd-destun o nodweddion gwarchoddedig, er</b>	Comisiynu proffil problem strategol i ddeall proffil y rhai sydd wedi'u lladd neu eu hanafu mewn digwyddiadau blaenorol. Gall hyn gynnwys deall risgiau sy'n gysylltiedig ag arferion penodol, ynghyd â	<b>Uwch Reolwr Diogelwch Tân</b>	Comisiynwyd a chwblhawyd proffil problem cychwynnol.  Bydd gwaith nawr yn parhau i nodi a thargedu'r rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn perygl ac sydd angen gwiriad integredig 'Diogel a Da'.			

<p><b>mwyn deall yn llawn a oes unrhyw grwpiau penodol mewn mwy o berygl tân nag un arall.</b></p>	<p>phroffil o ble y gall grwpiau neu unigolion penodol fyw yng Ngogledd Cymru</p>		<p>Mae gan y Gwasanaeth eisoes fynediad at fanylion mewn perthynas â'r bobl hynny yr ystyrir eu bod mewn risg uwch o ganlyniad i'w hoedran, a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i dargedu gweithgarwch yn y flwyddyn i ddod.</p>			
<p><b>LH/ 05</b></p> <p><b>Datblygu system newydd i reoli gwybodaeth risg sy'n berthnasol i'r unigolyn yn hytrach nag i'r adeilad, er mwyn rheoli anghenion y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân yn fwy effeithiol.</b></p>	<p>Datblygu gofynion y broses fusnes a chomisiynu naill ai system newydd, neu gynnal diwygiadau i'n systemau presennol sy'n caniatáu cofnodi gwybodaeth risg sy'n benodol i berson.</p>	<p><b>Uwch Reolwr Diogelwch Tân</b></p>	<p>Mae prosiectau eraill ar raddfa fawr o fewn TGCh wedi golygu y bydd angen gohirio'r darn hwn o waith tan y flwyddyn nesaf, er bod yr awydd a'r gofyniad yn parhau.</p>			
<p><b>LH/ 06 Ymgorffori cydraddoldebau yng nghynllun cyflenwi blynyddol grwpiau llywio Ymgyrchoedd Diogelwch Tân sy'n gysylltiedig â dyddiadau a digwyddiadau allweddol er mwyn defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.</b></p>	<p>Codi ymwybyddiaeth o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd ac ystyried y gofyniad i ymgymryd â gweithgareddau penodol i gefnogi unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p><b>Uwch Reolwr Diogelwch Tân</b></p>	<p>Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd bellach yn ystyried yr holl gyfleoedd cydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn sicrhau adnoddau yn unol â hynny.</p>			

<b>Cyflogaeth a Thâl</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fydd gwaith.</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb 2</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2016-2017</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</b>
<b>EP/ 02</b>  Ymgysylltu â sefydliadau addysgu i gynnal diwrnodau agored i arddangos opsiynau gyrfa mewn peirianeg ar gyfer merched sy'n gadael ysgol	Ystyried diwrnodau agored yn Fflyd i arddangos y busnes a'r rhagolygon posibl ar gyfer ymgeiswyr benywaidd. Rhedeg y broses hon ochr yn ochr ag ymgysylltu â diffoddwyr tân benywaidd/gweithredu cadarnhaol.  Annog sefydliadau addysgu i ymgorffori nodau cydraddoldeb yn eu hamcanion mewn perthynas â rolau swyddi traddodiadol.	<b>Rheolwr Fflyd</b>	Mae'r Adran Fflyd wedi llwyddo i ddenu ymgeiswyr benywaidd i rôl technegydd cerbydau prentis.  Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â chydweithrediad coleg addysg bellach lleol. Mae'r adran yn gobeithio symud ymlaen â hyn yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod.			
<b>EP/ 03</b>  Trwy arferion cyflogaeth, rhaglenni a chynlluniau GTAGC cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at waith.	Ymgynghorwyr Ffitrwydd i ymweld â champfeydd a chanolfannau hamdden yn ystod oriau brig, yn ogystal â mynychu digwyddiadau chwaraeon benywaidd e.e. Ras Am Oes.	<b>Pennaeth AD</b>  <b>Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad</b>  Ymgynghorydd Cydraddoldeb	Presenoldeb staff AD mewn digwyddiadau rhwydwaith PRISM a LGBT, ynghyd â GTAGC yn ymddangos ar wefan Dreambig sydd wedi'i hanelu'n benodol at ferched ifanc sy'n byw yng Nghymru. Bwriad hyn yw codi proffil diffoddwyr tân gan ei fod yn rhoi sylw i yrfa diffoddwr tân System Dyletswydd Amser-llawn benywaidd.			
	Gweithredu Cadarnhaol Targedu darpar recriwtiaid benywaidd trwy nifer o fentrau ychwanegol gan gynnwys cysylltu â chlybiau chwaraeon, h.y. Cymdeithas Pêl-droed Merched, timau rhedeg, hoci a phêl-rwyd.	<b>Pennaeth AD</b>  <b>Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad</b>  Ymgynghorydd Cydraddoldeb				
	<u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u>  Adolygu diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol a chyfrannu at gynhyrchu Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol. Defnyddio arfer gorau ac ymgorffori'r offer a'r broses i gynnal digwyddiadau gweithredu cadarnhaol effeithiol mewn un polisi gyda deunydd ategol	<b>Pennaeth AD</b>  <b>Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad</b>	Mae digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wedi'u cynnal cyn pob un o'r tri cham recriwtio a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynigiwyd y diwrnodau mewn sawl lleoliad ledled Gogledd Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a cheisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystod yr ymgyrch RDS.  Fe wnaeth Ymgynghorwyr Ffitrwydd Corfforol fynychu campfeydd ledled Gogledd Cymru ac ymgysylltu â darpar recriwtiaid i'w gwneud yn ymwybodol o'r a'r ymgyrchoedd recriwtio staff wrth gefn a phrentisiaid.  Fe wnaethom godi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned LGBT trwy hysbysebu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu targedu'n benodol.			

		Ymgynghorydd Cydraddoldeb	<p>Dilynodd ôl-drafodaeth bob un o'r digwyddiadau a thrafodwyd hyn yn y cyfarfodydd Adnoddau Gweithredol. Yn dilyn hyn, addaswyd pob cam i sicrhau y byddai ymgeiswyr sy'n mynychu Gweithredu Cadarnhaol yn cael y gorau o'r digwyddiadau trwy werthuso'r unigolion wnaeth fynychu. Aeth mwyafrif y mynychwyr ymlaen i ymgeisio am rôl.</p> <p>Rhodddwyd cyngor a chyfarwyddyd i unigolion a oedd methu â llwyddo i gyrraedd y safonau cryfder cyhyrol (codi ysgol). Mae'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol.</p> <p><u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u></p> <p>Bydd y gwaith hwn a wnaed yn ystod tri cham recriwtio yn helpu i lunio golwg y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol a gwerthuso'r gwaith mae'n rhaid ei wneud i gynorthwyo denu i bob agwedd ar y Gwasanaeth.</p> <p>Bydd monitro a dadansoddi'r data recriwtio yn rhoi ffocws i waith yn y dyfodol.</p>			
<b>EP/ 04</b> <b>Hyrwyddo polisiâu i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith gweithwyr GTAGC.</b>	<p>Cynhyrchu cynllun Mamolaeth/tadolaeth gwell sy'n ymgorffori deddfwriaeth ddiweddar i hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a chydraddoldeb.</p> <p>Ymchwilio i ganllawiau i weithwyr sy'n ymgymryd â chyfrifoldeb gofalu (Canllawiau Gofalwyr ar gyfer Dibynyddion).</p>	<b>Pennaeth AD</b>	<p>Mae polisi Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu wedi'i ddrafftio, i ymgorffori deddfwriaeth ddiweddar. Yn dilyn cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredol, cwblhaodd y polisi gyfnod ymgynghori ac mae bellach wedi'i roi ar y fewnwyd.</p>			
	<p>Wedi cynhyrchu canllawiau ar fynd i'r afael â materion lechyd Meddwl yn y gwaith ar gyfer gweithwyr a Rheolwyr Llinell (h.y. mynediad i Ymwybyddiaeth Ofalgar)</p>	<b>Pennaeth AD</b>	<p>Mae GTAGC wedi ymuno â Mind, Mindful Employer, a Time for. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gadarnhad o gyllid ar gyfer cyflwyno Hyrwyddwyr Golau Glas.</p>			
		<b>Pennaeth AD</b>	<p><b>CIDB/FLO</b> Y cynllun Ôl-drafodaeth Digwyddiadau Tyngedfennol wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar sail Cymru gyfan. Rydym wedi cyflwyno gwasanaeth cwnsela ffôn 24/7 trwy Raglenni Cymorth i Weithwyr. Hyfforddiant i'w raeadru i'r holl reolwyr llinell a gweithwyr ar ddarparu'r gwasanaethau uchod (a'i ychwanegu at fodiwl Learnpro).</p>			

<p><b>EP/ 01</b></p> <p><b>Sicrhau bod tactegau, offer a chyfarpar diogelu personol (PPE) yn y dyfodol yn cyd-fynd ag anghenion y Gwasanaeth a chymryd sylw o'r nodweddion gwarchoddedig.</b></p> <p><b>Sicrhau bod offer yn fwy ymarferol yn ergonomegol, yn lleihau pwysau heb gyfaddawdu ar y gofynion technegol, a bod PPE yn addas at y diben heb wahaniaethu</b></p>	<p>Ymgorffori ethos gwelliant parhaus mewn offer gweithredol a PPE mewn perthynas â phob maes a allai gael effaith niweidiol ar y rhai sy'n dod o dan y nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p><b>Uwch Reolwr Gweithrediadau</b></p>	<p>Mae'r gofyniad i adolygu offer yn unol â gwell ergonomeg ac i leihau pwysau heb gyfaddawdu ar ei ddefnydd wedi'i gynnwys wrth werthuso offer newydd.</p> <p>Bydd holl dactegau'r dyfodol yn cyd-fynd â'r Rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.</p>			
<p><b>EP/ 05</b></p> <p><b>Gweithio tuag at gyflwyniad i Fynegai Stonewall</b></p>	<p>Meincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Stonewall.</p> <p>Bydd y Rheolwr AD ac EA yn datblygu cynllun gweithredu gan edrych yn fanwl ar y gofynion y byddai angen i GTAGC eu cyflawni i alluogi'r Gwasanaeth i baratoi cyflwyniad i Fynegai Gweithle Stonewall.</p> <p>Ystyried unrhyw oblygiadau cyllidebol.</p>	<p><b>Ymgynghorydd Cydraddoldeb</b></p>	<p>Bydd y Rheolwr AD a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn gweithio i feincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Gweithle Stonewall 2017. Y bwriad yw defnyddio'r mynegai ac ymestyn yr ymarfer meincnodi i'r holl nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Fe wnaeth GTAGC a BCUIB gynnal digwyddiad ar y cyd i gynnal Rhaglen Cynghreiriaid Stonewall ym mis Awst 2016. Y digwyddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Mynychodd un o Gynghreiriaid newydd Stonewall Gynhadledd Stonewall yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2017.</p>			
<p><b>Cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghylch defnyddio offer gweithredol, gan ganolbwyntio'n benodol ar drin â llaw a defnyddio ysgolion 13.5 metr.</b></p>		<p><b>Uwch Reolwr Gweithrediadau</b></p>				
<p><b>Sicrhau bod asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnwys wrth gaffael yr holl offer gweithredol newydd gan gynnwys PPE.</b></p>		<p><b>Uwch Reolwr Gweithrediadau</b></p>				
<p><b>Sicrhau bod yr holl ddogfennau ysgrifenedig sy'n cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog a bod dogfennaeth flaenorol yn cael ei hadolygu neu ei dileu yn amodol ar gyflwyno NOG a dileu SOP.</b></p>		<p><b>Uwch Reolwr Gweithrediadau</b></p>				
<p><b>EP/ 06 C</b></p> <p><b>Ymgysylltu â chyflenwyr sy'n adeiladu dyluniadau offer tân traddodiadol i integreiddio'n llawn ac adeiladu i statws 5'2 "a pherswadio i beidio defnyddio'r dyn pryn 6' fel safon adeiladu dyluniad.</b></p> <p><b>Rhaid i'r dogfennau caffael newydd yn swyddogaethau Fflyd Cymru Gyfan gynnwys nod amrywiaeth mesuradwy er mwyn mesur cyflenwyr a rheolwyr Fflyd yn eu herbyn</b></p>	<p>Tendr caffael cerbydau newydd Cymru Gyfan i wella'r adran "Dylunio ar gyfer gweithlu amrywiol" i ddod yn agwedd fesuradwy o'r tendr.</p> <p>Ymgysylltu â chyflenwyr a sicrhau bod yr agwedd ddylunio hon yn cael ei phwysleisio i'r cyflenwyr a bod amcan gwirioneddol a mesuradwy yn cael ei gyflawni. Bydd cyflenwyr mewn cysyniadau dylunio arloesol yn cael eu hannog, i gynorthwyo Cymru i gyflawni'r budd hwn.</p> <p>Ymgysylltu â "Menywod yn y Gwasanaeth Tân ac Achub" i ddeall heriau ac anghenion mewn FRS modern yn llawn.</p>	<p><b>Rheolwr Fflyd</b></p>	<p>Mewn cyfarfodydd Fflyd Cenedlaethol, mae Rheolwr Fflyd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu a chyflenwi gyda'r cyflenwyr i ymgorffori dyluniadau ar gyfer gweithlu amrywiol wrth ysgrifennu manyleb Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Parhau i ymgysylltu a llobio'r cyflenwyr sy'n gweithio mewn marchnad draddodiadol ac arbenigol, bydd hyn yn cymryd amser a llobio parhaus i sicrhau newid.</p> <p>I'w symud yn ei flaen y flwyddyn nesaf.</p>			
<p><b>EP/ 07 C</b></p>	<p>Ailstrwythuro rolau a dyletswyddau adolygu adrannau, gan alinio tasgau â'r rôl at ddibenion parhad busnes.</p>	<p><b>Pennaeth Cyllid</b></p>	<p><b>Ailstrwythuro wedi'i gwblhau</b> - mae angen swydd wag i sicrhau parhad busnes; mae cyfrifoldebau adrannol yn cael eu hailddosbarthu ar hyn o bryd ymhlith y staff presennol.</p>			



<p>Nodi a mynd i'r afael â than-gynrychiolaeth yn yr adran gyllid, a chynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar ailstrwythuro'r adran a sicrhau parhad busnes, a chynllunio olyniaeth.</p>	<p>Cynnal ymarfer cynllunio olyniaeth; plotio adran rithwir er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan yr adran gyfuniad o staff i hwyluso gweithio hyblyg.</p>					
<p><b>Amcanion Cyflogaeth a Thâl a Gwblhawyd</b></p>						
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.</b></p>						
<p>Amcan Cydraddoldeb 2</p>	<p>Camau Gweithredu</p>	<p>Swyddog Arweiniol</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2016-2017</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</p>
<p><b>EP/ 08 C</b>  Cynhyrchu Llawlyfr Cymunedol ar gyfer y Gwasanaeth.</p>	<p>Cynhyrchu Llawlyfr Cymunedol</p>	<p>Ymgynghorydd Cydraddoldeb</p>	<p>Cwblhawyd - Mae'r Llawlyfr Cymunedol wedi'i gwblhau, ac fe'i cyflwynwyd fel rhan o'r Wobr Iechyd Corfforaethol. Mae'r ddogfen wedi'i gosod fel adnodd cyfeirio ar gyfer staff ar y fewnwyd.</p>			
<p><b>Amcanion Newydd Cyflogaeth a Thâl</b></p>						
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.</b></p>						
<p>Amcan Cydraddoldeb 2</p>	<p>Camau Gweithredu</p>	<p>Swyddog Arweiniol</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2016-2017</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</p>	<p>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</p>
<p><b>EP/ 09</b>  Cynhyrchu Llawlyfr Cydraddoldeb/Amrywiaeth Gwasanaeth  <b>NEWYDD</b></p>	<p>Cynnal ymchwil ar draws FRS ac Awdurdodau Lleol eraill i nodi fformatau a chynnwys perthnasol ar gyfer Llawlyfr Cydraddoldeb Gwasanaeth.</p>	<p>Ymgynghorydd Cydraddoldeb</p>	<p>Mae'r Llawlyfr Cydraddoldeb Staff ar ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd yn barod y flwyddyn nesaf.</p>			
<p><b>EP/ 10</b>  Grŵp Tân ac Achub Cynhwysol  Rhoi'r camau gweithredu ar waith fel sydd wedi'u blaenoriaethu gan y Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol  (Adran 4 Cynhwysiant y Strategaeth Sefydliadol Pobl a Datblygu)  <b>NEWYDD</b></p>	<p>Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau a bydd staff yn y lleoliad hwnnw yn cael eu gwahodd i arsylwi ar y cyfarfod.</p>	<p>Pennaeth AD  Ymgynghorydd Cydraddoldeb</p>				

## Addysg a Sgiliau

Amcan Cydraddoldeb 3: Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra a ddarperir yn unigol ac mewn cydweithrediad, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel risg eu hunain o dân a pheryglon eraill drwy'r gwahanol gyfnodau yn eu bywydau.

Amcan Cydraddoldeb 3	Camau Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Blwyddyn Cynnydd 2016-2017	Blwyddyn Cynnydd 2017-2018	Blwyddyn Cynnydd 2018-2019	Blwyddyn Cynnydd 2019-2020
ES/ 01 <b>Creu Strategaeth Hyfforddi a Chynllun Gweithredu</b>	Mae GTAGC wedi ymrwymo'n gyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal a thrin pobl yn deg. Nod y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r adran Hyfforddi a Datblygu yn cydlynu ac yn darparu cyfeiriad ar gyfer hyfforddiant a datblygiad cydraddoldeb ac amrywiaeth	<b>Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad</b>	<p>Mae'r Strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaethau a chanllawiau cenedlaethol ac yn gallu datblygu gweithlu cymwys a all ymateb i newid sefydliadol. Ar hyn o bryd mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Strategaeth Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol a fydd yn recriwtio ac yn datblygu gweithlu sy'n croesawu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Ffurfiwyd Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub i ystyried materion yn berthnasol i gydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol. Mae'r adroddiad dilynol yn cynnig strategaethau gwella ac yn ceisio cefnogaeth cyflogwyr a gweithwyr wrth symud ymlaen gyda'r rhain i sicrhau gwelliant ar lefel leol.</p> <p>Bydd y Grŵp Iechyd Diogelwch a Lles yn arwain y strategaethau gwella a nodwyd. Mae'r Strategaeth Hyfforddiant a Datblygu Cydraddoldeb eisoes yn cyd-fynd â llawer o feysydd a amlygwyd yn yr Adroddiad Cynhwysiant wrth hyrwyddo diwylliant cynhwysol, gweithgareddau recriwtio, gofynion hyfforddiant corfforaethol, prosesau dilyniant a mentrau cadw. Bydd yr argymhellion a'r camau gweithredu gan y Grŵp Llesiant Iechyd a Diogelwch a'r meysydd allweddol a nodwyd yn Strategaeth Datblygu Sefydliadol FRS Cymru gyfan yn rhan annatod o'r adolygiad strategaeth.</p>			
ES/ 02 <b>Cyflwyno hyfforddiant yn ymwneud â Deddf Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015</b>	Cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a darparu hyfforddiant i staff i'w gwneud yn ymwybodol o'r hyn mae angen iddynt edrych amdano, a bod â'r hyder i adrodd amdano. Cyflwyniad, hyfforddiant Lefel 1 yn symud i Lefel 2	<b>Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad</b>	<p>Mae'r modiwl e-ddysgu wedi bod ar gael i holl aelodau GTAGC trwy Learn Pro, ac mae 36% o'r staff wedi cwblhau'r modiwl.</p> <p>Mae canllawiau hefyd ar gael i Reolwyr Llinell i'w cynorthwyo i gefnogi staff.</p>			

<b>Diogelwch Personol</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb 4: Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf o danau yng Ngogledd Cymru trwy ddarparu gwasanaethau atal ac amddiffyn effeithiol ac ymateb tân ac achub brys.</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb 4</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>	<b>Cynnydd Blwyddyn 2016-2017</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</b>
<b>PS/ 01</b>  Sicrhau bod staff rheng flaen yn ymwybodol o faterion fel troseddau casineb a thrais domestig ac aflonyddu a bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio prosesau i adrodd amdano.	Defnyddio'r cyfle i archwilio i godi ymwybyddiaeth staff rheng flaen	Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth	Bellach wedi'u hymgorffori mewn ffurflenni archwilio gweithle. Mae ymwybyddiaeth/gwybodaeth wedi'u codi fel rhan o'r rhaglen archwilio.			
<b>PS/ 02</b>  Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth drwy dân drwy wella cywirdeb a rheolaeth gwybodaeth am leoliad.	Cyflwyno rhestr gyfeiriadau gorfforaethol gwasanaeth a reolir i sicrhau bod gan y System Gorchymyn a Rheoli'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriadau	Rheolwr Yr Ystafell Reoli	Mae'r rhestr gyfeiriadau gorfforaethol yn cael ei hanfon o'r adran TGCh a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei gyfuno â'r broses o roi'r system gorchymyn a rheoli newydd ar waith ym mis Mawrth. Mae hon yn dal i fod yn dasg nad yw wedi'i chwblhau a dylai fod ar gael yn ystod 2017.			
<b>PS/ 03</b>  Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth trwy dân trwy well cydweithredu rhwng partneriaid y Gwasanaeth Brys.	Rhannu llwyfannau technoleg gwybodaeth cyffredin i ganiatáu cyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol er mwyn rheoli adnoddau'n fwy abl i ddarparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru  GTAGC i symud i rannu ICCS Frequentis HGC.	Rheolwr Yr Ystafell Reoli	Mae'r rhestr gyfeiriadau gorfforaethol yn cael ei hanfon o'r adran TGCh a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei gyfuno â'r broses o roi'r system gorchymyn a rheoli newydd ar waith ym mis Mawrth. Mae hon yn dal i fod yn dasg nad yw wedi'i chwblhau a dylai fod ar gael yn chwarter un 2017.			
<b>PS/ 04</b>  Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth trwy dân trwy gyflwyno systemau i wella a chyfoethogi argaeledd Gwybodaeth Risg ar adeg yr alwad.	Cyflwyno System Gorchymyn a Rheoli newydd wedi'i chysylltu trwy'r rhestr gyfeiriadau newydd i Fire RMS sy'n cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell storio gwybodaeth risg	Rheolwr Yr Ystafell Reoli	Aeth y System Gorchymyn a Rheoli newydd yn fyw ar 21ain Mawrth ac mae'n rhyngwynebol â'r Fire RMS.			
<b>PS/05 C</b>  Datblygu dull cyson wedi'i dargedu'n fwy o gasglu a dehongli data risg mewn cyddestun o nodweddion gwarchoddedig, er mwyn deall yn llawn a oes unrhyw grwpiau penodol mewn mwy o berygl tân nag un arall.	Rhoi'r argymhellion peilot data Cydraddoldeb Gweithredol 2015 ar waith. Dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd dros bob cyfnod o 12 mis a'i defnyddio i gefnogi unrhyw strategaethau atal yn y dyfodol lle bo angen.	Uwch Reolwr Gweithrediadau	Cyfyngwyd y peilot i ardaloedd penodol i ddechrau, a defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu'r data. Ar ôl i'r treial ddod i ben, gwerthuswyd y canlyniadau ac aseswyd adolygiad o bob dull casglu i sefydlu pa ddull casglu oedd fwyaf addas ar gyfer y gwasanaeth a'r cyhoedd.  Byddai modd defnyddio'r casgliad a'r adolygiad a'r dadansoddiad o'r data hwn i lywio strategaethau atal yn y dyfodol.			





<b>Mynediad i Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu â'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol i adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio.</b>						
<b>Amcan Cydraddoldeb</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2016-2017</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</b>
<b>AS/01</b> <b>Sicrhau bod ffyrdd a dulliau cyfathrebu priodol yn cael eu mabwysiadu wrth hyrwyddo negeseuon diogelwch â blaenoriaeth a nodwyd gan yr adran Diogelwch Tân</b>	Sicrhau bod hyn yn gysylltiedig â'r Amcan Cyfathrebu Corfforaethol mewn perthynas â chefnogi'r amcanion a datblygu cysylltiadau gweithio agos gyda'r Adranau Diogelwch Tân a Lleihau Llosgi Bwriadol Cymunedol	<b>Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol</b>  <b>Uwch Reolwr Diogelwch Tân Safety</b>	Mae ymgyrchoedd diogelwch cymunedol yn cael eu cydlynu trwy'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd - mae'r rhain wedi'u hamserlennu ac mae adnoddau priodol wedi'u sicrhau ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn i ddod gydag amcanion clir a gwerthuso wedi hynny. Mae ffyrdd a dulliau cyfathrebu priodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaethau a fabwysiadwyd e.e. comisiynwyd a chynhyrchwyd y fideo Rhesymau i Brofi gyda nodweddion gwarchoddedig mewn golwg.			
<b>AS/02</b> <b>Mabwysiadu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd y cytunwyd arni</b>	Ystyried aml-ieithoedd, hygyrchedd; cydweithredu â fforymau a grwpiau cynrychiolwyr sefydledig ac ati.	<b>Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol</b>	Roedd yr ymgynghoriad ar yr amcanion strategol ar gyfer 2017-18 a gynhaliwyd yn Hydref 2016 yn cynnwys;  Ymgysylltu'n uniongyrchol ar e-bost: Anfonwyd gwahoddiadau am ymatebion, ynghyd â dogfennau esboniadol cysylltiedig, at restr o gysylltiadau a llunwyr barn a oedd yn cynnwys grwpiau cynrychiolwyr lleol  Ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol: Cyhoeddwyd negeseuon Twitter - gan ddilyn grwpiau cynrychioliadol hysbys ar ein cyfrif Twitter i'w hannog i'n dilyn yn ôl  Dosbarthu taflenni: Cyhoeddwyd taflenni gan y rhai sy'n darparu HSC a gan staff RDS yn eu cymunedau lleol  Cydweithio â phartneriaid: gofynnwyd i bartneriaid lleol rannu ac ail-drydar ein negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ac, yn benodol, y PSB oedd yn ymwneud â chynnal ymgynghoriadau lles, amlygwyd ein hymgyngoriad hefyd ac yn ei dro fe wnaethom dynnu sylw at eu hymgyngoriadau nhw gan sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu mor eang â phosibl. Yn Ynys Môn roedd hyn yn cynnwys rhannu ein hymgyngoriad â grwpiau nodweddion gwarchoddedig sydd eisoes yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau eraill.			
<b>AS/03</b> <b>Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a gwella profiad y cwsmer.</b>	Asesu/gwirio Strategaethau Cyfathrebu Corfforaethol am arweiniad penodol ar fformatau amgen a phrotocolau dehongli a chyfieithu. Adolygu, Defnyddio ac adrodd ar allbynnau ymchwilio (cwynion ac yn y blaen) i lywio gwelliannau posibl	<b>Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth</b>	Mae sicrwydd o barodrwydd yr iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn nogfennaeth archwilio'r gweithle i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth, a sicrhau cydymffurfiaid â safonau iaith Gymraeg.  Arweiniodd cwyn a dderbyniwyd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg at adolygiad a gwelliant pellach i'n gweithdrefn diogelwch cartref.			
<b>AS/04</b> <b>Gwella mynediad adeiladau i ymwelwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r Ganolfan Rheoli Cyfathrebu ar y Cyd</b>	Gwella mynediad ar gyfer pobl anabl sy'n ymweld â'r Ganolfan Rheoli Cyfathrebu ar y Cyd â phwyntiau mynediad ffob gwell, agor a chau'r cyfeiriadedd ar y drws ac argaeledd toiledau i'r anabl (llawr gwaelod).	<b>Rheolwr Yr Ystafell Reoli</b>  <b>Rheolwr Ystadau</b>	Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn datgan y dylid gwneud 'addasiadau rhesymol' lle bo angen.  Bydd unrhyw ofynion penodol i'r JCC yn cael eu harchwilio ymhellach i fodloni unrhyw anableddau penodol. Hyd yma ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod 2016-17.			

			Mae'r toiled hygyrch yn cydymffurfio â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu.			
<b>AS/05 C</b>  Diweddaru'r Canllaw Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer contractwyr a'i roi i bob contractwr cyfleusterau yn ffurfiol.  Sicrhau bod pob contractwr sy'n cael ei gyflogi gan y Gwasanaeth i weithio ar safle GTAGC yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol a Pholisi Cydraddoldeb GTAGC.	Diweddaru ac ymgynghori'n fewnol ar ddogfen ganllaw.  Dosbarthu i bob contractwr Cyfleusterau gyda chopïau o Bolisi Cydraddoldeb GTAGC a monitro cydymffurfiaeth contractwyr.	Rheolwr Ystadau	Cyhoeddir Dogfen Ganllaw i'r holl gontractwyr ar y 'Contract Gwaith Cynnal a Chadw, Adeiladu a Thrydanol' a ddyfarnwyd yn ddiweddar.			
<b>Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau Amcanion a Gwblhawyd</b>						
Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu â'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol i adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio.						
<b>Amcan Cydraddoldeb</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2016-2017</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2017-2018</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2018-2019</b>	<b>Blwyddyn Cynnydd 2019-2020</b>
<b>AS/06 C</b>  Gwella'r gofyniad am amcanion cydraddoldeb ar gyfer adnewyddu tendrau am gyflenwadau garej.	Bydd GTAGC yn ysgrifennu amcan cydraddoldeb i'r tendr newydd ar gyfer Cymru gyda sgorau mesuradwy.	Rheolwr Fflyd	Cwblhawyd - Ychwanegwyd yr amcan hwn at y tendr, ac mae'r tendr bellach wedi'i ddyfarnu.			